Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner and Chief Constable

2014/15

# Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Heddlu•Police DYFED-POWYS

Diogelu ein Cymuned – Safeguarding our Community

## Rhagair gan y Cadeirydd

Cyflwynaf i chi ail adroddiad blynyddol Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys. Gwerth Pwyllgor Archwilio i sefydliad yw ei fod yn cynnig sicrwydd a chyngor annibynnol ar ei brosesau llywodraethu. Er enghraifft, mae'n edrych ar y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheoli ariannol a, phan fod angen, bydd yn herio prosesau'r sefydliad. Mae Aelodau Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys yn annibynnol o'r ddwy swydd hyn, a gyda'i gilydd, mae ganddyn nhw'r sgiliau a'r profiad sydd angen er mwyn rhoi cyngor a chymorth effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn 2014/15 mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi canolbwyntio ar drefniadau rheoli risg, datblygu'r Cod Moeseg ac ymgorffori trefniadau llywodraethu. Mae'n dda adrodd cynnydd ym mhob un o'r meysydd hyn. Ar yr un pryd, mae'r pwyllgor wedi archwilio ei effeithiolrwydd ei hun er mwyn sicrhau ei fod ar y trywydd cywir. Gwnaethom hyn drwy ymgynghori â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a'n harchwilwyr mewnol ac allanol, gan ofyn i bob un ohonynt pa un ai a oedd gennym ni'r cydbwysedd cywir rhwng cefnogi a herio, a pha un ai a oedden nhw'n gweld unrhyw fylchau yn yr hyn roedden ni'n gwneud. Hefyd, cawsom sesiwn hunanasesiad lle'r edrychom ar yr hyn rydyn ni'n gwneud a sut oedden ni'n ei wneud. Y canlyniad oedd, er ein bod ni'n teimlo bod y cydbwysedd yn gymharol gywir gennym, roedd meysydd nad oeddem yn rhoi sylw digonol iddynt ar hyn o bryd. Byddwn ni'n rhoi mwy o sylw i rai o adroddiadau'n harchwilwyr mewnol yn y dyfodol.

Mae plismona yn Nyfed-Powys yn wynebu heriau parhaus ar adeg o newid digynsail mewn cyfnod o lymder cenedlaethol. Rwy'n hyderus y gellir wynebu'r heriau hyn heb leihad yn yr angerdd dros lywodraethu da yr wyf wedi canfod sy'n bodoli. Wrth imi agosáu at ddiwedd fy ail dymor fel Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio, rwy'n diolch i holl swyddogion a staff SCHTh a'r Prif Gwnstabl am eu parodrwydd i ymgysylltu'n adeiladol â'r pwyllgor, ac rwy'n diolch i'n cyd-aelodau pwyllgor am eu cymorth.

Alasdair Kenwright
Cadeirydd Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys Police

### Dyfed-Powys

Yn ddaearyddol, Dyfed-Powys yw'r ardal heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cwmpasu 52% o dirwedd Cymru, sef 4,188 milltir sgwâr. Mae'n gwasanaethu Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys. Mae'r ardal yn bennaf wledig, gyda rhai ardaloedd o boblogaeth drefol yma ac acw. Ar hyn o bryd, mae 515,114 o drigolion yn yr ardal, neu 221,858 o gartrefi.

Ar hyn o bryd, y Prif Gwnstabl ar gyfer yr ardal yw Simon Prince. Am ragor o wybodaeth am Mr Prince, cliciwch yma.

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal yw Christopher Salmon. Am ragor o wybodaeth am Mr Salmon, cliciwch yma.

Cliciwch yma i ddarllen mwy am flaenoriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Dyfed-Powys.

### Yn y rhifyn hwn


Rhagair Gan y Cadeirydd ..................1
Rôl y Cyd-bwyllgor Archwilio ...........2
Aelodaeth ................................ ....2
Prif feysydd ffocws y pwyllgor yn ystod 2014/15 ............................. .....3
Blaenoriaethau ar gyfer 2015/16.....3

# Rôl y Cyd-bwyllgor Archwilio

Mae Pwyllgorau Archwilio yn rhan allweddol o'r broses llywodraethu corfforaethol. Maent yn darparu lefel uchel o ffocws annibynnol o ran y trefniadau adrodd, sicrhau ac archwilio sy'n sail i safonau llywodraethu ac ariannol da. Mae llywodraethu da yn galw am sicrwydd annibynnol ac effeithiol o ran digonolrwydd trefniadau rheoli mewnol, rheoli ac adrodd ariannol, rheoli risg a threfniadau gwrth dwyll a llygredd.

Yn unol â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol (2012) sefydlwyd Cyd-bwyllgor Archwilio ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) a Phrif Gwnstabl (PG) Dyfed-Powys ar ddechrau tymor y CHTh. Mae'r corff hwn yn annibynnol o'r swyddogaeth craffu a ddarperir gan y Panel Heddlu a Throseddu. Mae'n cynnig cyngor annibynnol ac yn gwneud argymhellion i'r CHTh a'r PG er mwyn helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithlon ac effeithiol mewn lle. Mae'r Cylch Gorchwyl yn crynhoi swyddogaethau craidd y pwyllgor a'r protocolau sydd mewn lle i'w alluogi i weithredu'n annibynnol, yn gadarn ac yn effeithiol.

# Aelodaeth

Rhaid bod gan aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio ddealltwriaeth o'r materion ariannol, risg a rheoli, a llywodraethu corfforaethol sy'n wynebu'r CHTh a'r PG. Rhaid bod ganddynt y gallu i herio, cwestiynu, holi'n fanwl a cheisio eglurhad gan y CHTh a'r PG fel y bo angen. Mae'r CHTh a'r PG yn fodlon bod gan y 4 aelod, sef Mr Alasdair Kenwright, Mrs Ann Williams, Mr Gawain Evans a Mr Malcolm MacDonald, y cyfuniad cywir o sgiliau a phrofiad perthnasol, a'u bod wedi dangos eu hymroddiad angerddol i sicrhau'r gwasanaeth plismona gorau posib ar gyfer Dyfed-Powys. Ymddiswyddodd pumed aelod, Mrs Daphne Evans, fel aelod o'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2014 am iddi gael ei phenodi i'r Panel Camymddwyn, a oedd yn cyflwyno buddiannau sy'n gwrthdaro o ran ei dyletswyddau fel aelod Pwyllgor.

Er mwyn cefnogi'r Aelodau yn eu rôl, cynhaliwyd ail sesiwn hyfforddi gan CIPFA yn 2014 ar gyfer aelodau Cyd-bwyllgorau Archwilio Dyfed-Powys, Gwent a De Cymru. Diben yr hyfforddiant blynyddol hwn ar y cyd yw cynorthwyo Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio i gyflawni eu cyfrifoldebau.

| Aelod | Uchafswm nifer y cyfarfodydd y gallai'r aelod fod wedi eu mynychu | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd ganddynt | Canran y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Alasdair Kenwright (Cadeirydd) | 4 | 4 | 100% |
| Daphne Evans | 1 | 1 | 100% |
| Gawain Evans | 4 | 4 | 100% |
| Malcolm MacDonald | 4 | 4 | 100% |
| Ann Williams | 4 | 4 | 100% |

Caiff y cyfarfodydd eu mynychu hefyd gan y CHTH a'r PG, Prif Swyddog Ariannol a Phrif Swyddog Staff y CHTh (y swyddog monitro) a Chyfarwyddwr Cyllid y PG. Mae swyddogion eraill hefyd yn mynychu yn unol ag anghenion adrodd. Ddwywaith y flwyddyn, mae aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio hefyd yn cyfarfod yn breifat â'r archwilwyr mewnol ac allanol, heb fod y CHTh a'r PG yn bresennol.

Mae Cofnodion cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio ar gael ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu http://bit.ly/1jiec32 Maent hefyd ar gael i'r Panel Heddlu a Throseddu.

## Prif feysydd ffocws y pwyllgor yn ystod 2014/15

Cyfarfu'r Cyd-bwyllgor Archwilio  4 tro yn ystod 2014/15. Y prif feysydd ffocws oedd:

- Adroddiadau ariannol: adolygodd y Cyd-bwyllgor Archwilio ddatganiadau ariannol a pholisïau cyfrifo blynyddol y CHTh a'r PG. Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Archwilio bolisïau ar gyfer Strategaeth Rheoli Trysorlys, Buddsoddi, Cronfeydd a Mantolion.
- Rheoliadau mewnol: adolygodd y Cyd-bwyllgor Archwilio effeithiolrwydd y trefniadau rheoli mewnol, gan gymryd i ystyriaeth ganfyddiadau'r adroddiadau archwilio mewnol ac allanol. Ceisiodd y Cyd-bwyllgor Archwilio sicrwydd bod y materion rheoli a nodwyd yn derbyn sylw.
- Archwilio mewnol: Yn ystod y flwyddyn, goruchwyliodd y Cyd-bwyllgor Archwilio waith yr archwilio mewnol, a gyflawnwyd gan TIAA.
- Archwilio allanol: Nododd y Cyd-bwyllgor Archwilio'r Llythyr Archwilio Blynyddol a oedd yn cydnabod bod trefniadau priodol mewn grym i sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o ran y defnydd o adnoddau. Tynnodd Swyddfa Archwilio Cymru sylw at y lefel o gronfeydd defnyddiadwy wrth gefn a oedd wedi parhau i gynyddu.
- Llywodraethu: Rhoddodd y Cyd-bwyllgor Archwilio adborth ar gynnwys y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, a gymeradwywyd ac a weithredwyd yn ystod y flwyddyn. Cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Archwilio ddatganiadau llywodraethu blynyddol y PG a'r CHTh. Hefyd, derbyniodd y Cyd-bwyllgor Archwilio gofnodion cyfarfodydd y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.
- Rheoli risg: Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Archwilio ddiweddariadau manwl ar drefniadau newydd yr Heddlu ar gyfer rheoli risg.
- Effeithlonrwydd: Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Archwilio ddiweddariadau rheolaidd ar y rhaglen newid 'Y Cyhoedd Yn Gyntaf' a gwaith cysylltiedig ar effeithlonrwydd prosesau, digidoli, a strwythurau staffio hyblyg.
- AHEM: derbyniodd y Cyd-bwyllgor Archwilio ddiweddariadau rheolaidd yn ymwneud â gweithgareddau adolygu AHEM. Mynegodd aelodau bryder am nifer yr archwiliadau a gyflawnwyd a'r galw a osodwyd ar yr Heddlu.
- Cod Moeseg: Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Archwilio gyflwyniad ar ymagwedd yr Heddlu tuag at fewnosod y Cod Moeseg, sy'n cynnwys sefydlu Pwyllgor Moeseg mewnol.
- Strategaeth Gyfalaf: Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Archwilio ddiweddariad ar y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2014 /15 – 2018 /19 a'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2014 /15.

*'Mae'r pwyllgor yn darparu lefel o graffu ymwthiol sy'n golygu bod gennyf raddfa uchel o hyder yn uniondeb prosesau a threfn llywodraethu'r Heddlu.'*

Prif Gwnstabl Simon Prince

*'Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhan bwysig o'r trefniadau llywodraethu newydd dan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.  Mae'n rhoi tryloywder ac yn gweithredu fel cyfrwng pwysig o ran newid tuag at atebolrwydd symlach, cliriach a llai costus.'*

Christopher Salmon
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

## Blaenoriaethau ar gyfer 2015/16

Mae blaenoriaethau'r Pwyllgor yn 2015 /16 yn cynnwys:

- Meysydd busnes a dderbyniodd sicrwydd cyfyngedig, gan gynnwys Dyledwyr, Atgyweiriadau Ymatebol, a threfniadau Risg, a gwaith dilynol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn;
- Cynlluniau arbed costau ar gyfer 2016 /17 ymlaen;
- Adolygu'r rhaglen newid 'Y Cyhoedd yn Gyntaf';
- Rhaglen waith ystadau;
- Mewnosod y trefniadau rheoli risg newydd;
- Gwerth am Arian;
- Parhad Busnes.

Cysylltwch â Ni

Heddlu Dyfed-Powys

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys